



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Stryd Y Bont
Canolfan Plant
Ffordd Y Coleg
Lôn Talwrn
Llangefni
LL77 7LP**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/03/2017

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Stryd y Bont, sydd yn cwrdd yng Nghanolfan Plant Llangedfni, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos ac mae ganddo dri o ymarferwyr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu iddo dderbyn hyd at 24 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae tua hanner ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Ebrill 2003. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Tachwedd 2013 a gan Estyn ym mis Chwefror 2010.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn dangos cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u manau cychwyn
- bron pob un o'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n gwella dysgu'r plant
- disgwyliadau uchel yr ymarferwyr yn sicrhau her cyson ar gyfer y plant
- ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol ac mae eu gofal gwyliadwrus yn creu amgylchedd dysgu effeithiol
- defnydd cyson yr holl ymarferwyr o'r Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llefaru a dealltwriaeth y plant
- ardaloedd dysgu dan do a'r ardal allanol yn ennyn diddordeb ac ysgogiad y plant yn llwyddiannus

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad clir i waith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- systemau arfarnu trylwyr yn bodoli sy'n ystyried safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad
- hyfforddiant ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu ar yr addysgu
- defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth o fudd i blant ac yn effeithio ar eu lles yn gadarnhaol
- partneriaethau positif gyda rhieni, asiantaethau allanol a'r ysgol leol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol
- cefnogaeth yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn fuddiol iawn o ran hyfforddiant ymarferwyr
- cymorth synhwyrol y pwyllgor rheoli yn cynnal darpariaeth effeithiol, sicrhau rheolaeth drylwyr o'r cyllid a monitro cyson o arferion yr arweinydd a'r ymarferwyr

Argymhellion

- A1 Gwella ysgrifennu cynnar y plant mwyaf abl
- A2 Cynnig gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant
- A3 Sicrhau bod cyflwyniadau'r ymarferwyr i dasgau yn cyfatebu'n briodol i oedran a gallu'r plant

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, er bod mannau cychwyn llawer ohonynt yn is na'r disgwyl. Erbyn hyn, maent yn dwyn i gôf eu dysgu blaenorol ac yn cydweithio'n llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw paratoi teisen yn y gegin fwd a llenwi a gwagio bwcedi o dywod cyn llwytho'r cymysgydd yn yr ardal adeiladu.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o'r plant, a'u defnydd o'r iaith, yn datblygu'n bwrpasol. Mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth sylfaenol dda o'r iaith. Maent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn synhwyrol wrth siapio anifeiliaid y jyngl â thoes ac wrth gydbwyso ar honglath yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn gwrandao'n astud ar storïau mewn sesiynau torfol a phan fyddant yn dechrau defnyddio arian yn y siop ffrwythau a llysiau.

Mae'r mwyafrif o blant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn bwrpasol heb anogaeth gan oedolyn. Mae hyn yn digwydd yn ystod chwarae anffurfiol a thasgau ffocws. Gwelir hyn wrth iddynt ymateb yn ddeallus i gwestiynau ymarferwyr yn y Gymraeg yn ystod tasgau ac wrth fyrddau tra'n bwyta'u byrbrydau. Maent yn ymateb yn dda yn ystod gweithgareddau grŵp wrth iddynt yrru tractorau yn yr ardal allanol, cymharu maint a siâp eliffantod a chwblhau jig-sos. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Maent yn deall diben y darluniau ac yn cymharu cymeriadau adnabyddus Cymreig yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin a thrafod y llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi â chreu marciau'n effeithiol. Maent yn mwynhau'r profiadau ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol fel sialc, sebon eillio a phaent. Mae ychydig iawn o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau y gellir eu hadnabod, wrth drin a thrafod pensiliau a chreionau. Fodd bynnag, nid yw'r plant mwyafrif abl yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn ddigon da/effeithiol. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. Mae lleiafrif o blant yn adnabod â chywirdeb eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn ystod y cyfnod cofrestru.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol mewn cyd-destunau cyffredin. Mae mwyafrif y plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump gyda chymorth oedolyn. Mae lleiafrif ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir, wrth ddioli siapiau, gwrthrychau ac eliffantod gwahanol liw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall y gwahaniaethau mewn maint wrth baentio wynebau a maintioli llygaid, gwallt, ceg a thrwyn yn gywir. Maent yn esbonio'n llwyddiannus os yw gwrthrychau'n 'fawr', yn 'ganolig' neu'n 'fach'. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod briodol o iaith fathemategol wrth gydweithio â'i gilydd mewn chwarae digymell, er enghraifft wrth gymharu hyd a phwysau y gwahanol wrthrychau. Maent hefyd yn defnyddio rhifau yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol wrth gymharu

niferoedd y siapiau dau a thri dimensiwn ac wrth gyfrif nifer y creaduriaid yn yr ardal byd bach.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwranddo ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Maent yn taro tambwrîn yn frwdfrydig yn ystod gweithgareddau cerdd ac yn symud yn synhwyrol i gerddoriaeth fywiog wrth ddawnsio.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio clustffonau, camerâu a theganau electronig mewn gweithgareddau bob dydd. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu defnydd o feddalwedd addysgol i ddatblygu eu medrau meddwl, TGCh, rhifedd neu lythrennedd.

Mae llawer o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio offer a chynhwysion addas i greu teisen ddychmygus yn y gegin fwd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Enghraifft o hyn yw pan fyddant yn gweithio gyda phlant eraill i stampio, lapio a phostio llythyrau yn y swyddfa bost a thra'n creu gwddihw o wahanol adnoddau fel paent, dail a phlu.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhellant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n gydwybodol yn ystod tasgau. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol â phlant eraill. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, er enghraifft wrth arbrofi gyda phaent a sebon eillio i greu patrymau lliwgar ar eu dwylo ac ar bapur.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn ymateb â pharch i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwranddo'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn ymchwilio yn yr ardal natur tu allan ac wrth wisgo'u cotiau cyn mynd adref. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae bawlyd a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb ormod o anogaeth gan oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt ddewis i fynegi barn a ffafriaeth bersonol. Enghraifft o hyn yw wrth iddynt benderfynu parhau i gwblhau tasgau penodol neu i ddechrau gweithgaredd newydd. Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth gyrraedd y lleoliad ac wrth adael. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac yn gallu gweithio'n annibynnol. Mae hyn yn amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio'n feddylgar pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau a pha greadur yw eu hoff anifail yn y jyngl.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn drylwyr. Maent yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol iddynt ddatblygu fel dysgwyr annibynnol trwy ddewis cyfarpar addas wrth y gegin fwd. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyflwyno gweithgareddau difyr a phwrpasol, yn enwedig yn yr ardal allanol ysgogol. Mae gweithgareddau o'r fath yn sbarduno a chymell y plant i ddysgu trwy brofiadau ymarferol a chreadigol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu, ac mae ymarferwyr yn ysbrydoli'r plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Ar y cyfan, mae'r profiadau dysgu yn cynnig parhad a dilyniant synhwyrol i ddysgu'r plant. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu cynnar plant mwy abl yn cael eu hymestyn yn ddigonol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn cydnabod bod medrau'r plant ar lefel isel pan fyddant yn dechrau yno. Mae ymarferwyr yn mynd i'r afael â hyn trwy foddelu geiriau ac ymadroddion yn effeithlon a rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n effeithiol ac maent yn ymateb yn gan ddefnyddio ymadroddion syml mewn amser byr.

Mae ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau'r amrywiol themâu yn ddeallus i herio'r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd addas i blant gyfrannu at y cynllunio. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd ysgogol i blant chwarae rôl yn yr ardal gartref a'r gegin fwd. Maent yn datblygu medrau ymchwilio yn yr ardal natur a'r ardal ddarganfod ac yn arbrofi â phaentiau wrth brintio â'u dwylo a chreu toes gyda dŵr, paent, blawd a gliter. Mae gweithgareddau o'r natur hon yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio ystod o offer, fel camerâu, teganau electronig, clustffonau, cyfrifiadur a thiliau. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i blant ddefnyddio meddalwedd addysgol bwrpasol i ddatblygu eu medrau TGCh yn llawn.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau brys, y swyddog diogelwch ffordd, hylenyddion deintyddol a'r lori sbwriel yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned. Mae ymarferwyr yn defnyddio ardaloedd coediog cyfagos a busnesau'r ynys i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'u cymuned leol yn synhwyrol.

Addysgu: Da

Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant. Maent yn gyfarwydd â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn cydweithio'n effeithiol. O ganlyniad, maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol.

Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ar gyfer pob sesiwn. Mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad eu plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel ac mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad llwyddiannus y plant ym mhob gweithgaredd.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r plant ac maent yn herio'r plant yn gyson. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant ac yn cymell plant i berfformio ar eu gorau yn ystod gweithgareddau parhaus. Mae ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol er mwyn datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Fodd bynnag, ar adegau prin, nid yw'r addysgu'n gwbl effeithiol gan nad yw'n sicrhau dyfalbarhad a chanolbwyntio'r plant iau. Mae hyn yn ymyrryd ar ddysgu'r plant hyn a'r rhai mwy abl.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Mae'r holl ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau bob dydd yn effeithiol yn y llyfrynnau cofnodi ac yn 'llyfrau trysor' y plant. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau a thargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol. Caiff yr holl dystiolaeth ei gweddu'n drylwyr i ddeilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cyflwyno llyfr datblygiad llawn gwybodaeth, sy'n cynnwys gwaith y plant ag anodiadau ac adroddiad ar gynnydd y plentyn i rieni.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp yn synhwyrol er mwyn i'r plant ystyried teimladau ei gilydd. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrion, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn creu amgylchedd myfyriol, wrth i'r plant eistedd i wrando ar oedolion ac yn dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro yn gwrtais wrth iddynt fwyta byrbrydau. Maent hefyd yn gweini llaeth a dŵr yn ofalus o amgylch y byrddau bwyd. Mae'r system o benodi helpwyr y dydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd a nwyddau plastig. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu gamau gormesol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gywir pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn nodi eu manau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Drwy hyn, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu eu hanghenion.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant gyfle cyfartal i elwa ar yr holl feysydd dysgu ac adnoddau. Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth drylwyr am yr holl blant ac yn deall ac ymateb i anghenion pob unigolyn yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn herio plant bob dydd mewn modd cadarnhaol, gofalus a sensitif.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgwr trwy ei weithgareddau dyddiol. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd fel y Flwyddyn Newydd Dsineiaidd a thrwy ddefnyddio storïau moesol o Affrica.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei adnoddau'n llwyddiannus iawn i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, y tasgau â ffocws a'r cyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau yn hygyrch i bob un o'r plant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae ansawdd yr adeilad yn gryfder. Mae'n lân, yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddiogel. Mae'r ardal allanol yn ysgogol ac yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu newydd, cyfarpar i ddringo ac ardal natur er mwyn ymchwilio ac ymholi. Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio'r coedwigoedd cyfagos yn synhwyrol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar sicrhau ddarpariaeth effeithiol. Mae hyn yn bodloni anghenion plant ac yn hyrwyddo cyflawniadau'r plant yn dda. Mae'r arweinydd yn rheoli tîm o ymarferwyr ymroddgar yn llwyddiannus ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a'r plant. Llwydda i'w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'n rhoi cyfeiriad strategol positif i arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad, ac mae hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu i dargedu plant unigol, cofnodi asesiadu dyddiol mewn llyfrynau penodol a datblygu ardaloedd i blannu llysiâu. Mae hi hefyd yn canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, i wella medrau'r plant.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddyddiol fel tîm. Mae'r arferion goruchwyllo a gwerthuso rheolaidd yn sefydlog. Mae'r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr, yn enwedig wrth ddarparu patrymau iaith yn y Gymraeg. Mae'n diffinio gwahanol rolau a chyfrifoldebau'r ymarferwyr yn synhwyrol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau a monitro'r cyllid yn gyson. Maent yn herio'r lleoliad yn briodol i gynnal arferion cyson a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Gwella ansawdd: Da

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio effeithiol a'r wybodaeth a gesglir bob dydd, ynghyd â phegyn canllawiau arfarnu'r awdurdod lleol, yn cyfrannu at yr arfer llwyddiannus hon. Mae'r prosesau hunanarfarnu yn ystyried safbwyntiau'r ymarferwyr, y rhieni, swyddogion y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r lleoliad yn bwrpasol ac mae'r cynllun datblygu yn nodi'r meysydd datblygu yn effeithiol.

Mae'r arweinydd yn cynnal arferion sicrhau ansawdd llwyddiannus ac mae hi'n rhoi newid ar waith trwy gynlluniau gweithredu datblygedig. Mae'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella.

Mae'r holl ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Cânt gyngor gwerthfawr ganddynt i gefnogi newidiadau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau, gan gynnwys proffil y Cyfnod Sylfaen a system o gofnodi asesiadau anffurfiol newydd.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd. O ganlyniad i hyn, mae'r wybodaeth i rieni ar hysbysfwrdd y lleoliad wedi gwella.

Mae'r bartneriaeth â Dechrau'n Deg yn gadarn ac yn cefnogi'r broses o greu man cychwyn cywir ar gyfer y plant. Mae hyn yn targedu anghenion yn gynnar trwy ddefnyddio arbenigedd asiantaethau allanol. Yn ychwanegol, mae cyswllt cadarnhaol â'r ysgol leol. Mae athrawes y dosbarth meithrin yn ymweld â'r lleoliad ac mae'r plant yn ymweld â dosbarth meithrin yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant yn dda. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'r ysgol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, colegau lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r bartneriaeth gadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn mynd ati i gefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr a'r myfyrwyr yn effeithiol.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu plant yn dda. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus i godi arian a chynigion cyllid grant. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cynorthwyo'r lleoliad â hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

Rheoli adnoddau: Da

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant.

Mae arferion arwain pwrpasol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu fywiog

yn bodoli, lle mae cydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell i gefnogi gwahanol themâu a defnyddio'r ardal allanol i gefnogi dysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb yn bwrpasol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn blaenoriaethau y cynllun datblygu yn effeithiol. Mae hyn yn creu gwelliannau pwrpasol, rheolaidd a chyson trwy drafodaethau buddiol a chynlluniau gwella wedi'u cyllido'n dda. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian, o ganlyniad i'r cynnydd y mae plant yn ei wneud o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
-------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.